

**CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU
COUNTRYSIDE COUNCIL FOR WALES**

DISGRIFIAD SAFLE O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG

GWYNEDD

MOELWYN MAWR

<u>Dyddiad Hysbysu:</u>	1990
<u>Cyfeirnod Grid Cenedlaethol:</u>	SH 660450
<u>Mapiau Ordnans:</u>	1:50,000 Rhif taflen: 115 & 124 1:25,000 Rhif taflen: SH 64
<u>Arwynebedd y Safle:</u>	41 ha

Disgrifiad:

Mae'r Moelwyn Mawr o bwys oherwydd ei geomorffoleg Pleistosen, ac yn arbennig am dday fath o dirffurf o darddiad ddadleuol. Gwelir cyfres o gefnau croes o glogfeini a ffryntiau scarp serth yng Nghwm Croesor; credir ei fod yn rewlif o graig ffosilaidd. Ni wyddom hyd yma beth yn union yw ei oedran na'r modd y cafodd ei ffurfio: un awgrym yw iddo ymddangos pan ddisgynodd creigiau trymion dros rewlif bychan o gyfnod Stadial Loch Lomond a orweddai yn y cwm. Gwelir cyfres amlwg o sribeday o dyfiant cymysg dros ardal o tua 20 ha ar lethrau gogledd-ddwyrain Moelwyn Mawr. Mae'r sribedau hyn yr enghreifftiau gorau o'u bath o bosibl yng Nghymru. Y gred gyffredinol yw mai nodweddion ffosilaidd ydynt a ffurfiwyd mewn cyfnod flaenorol neu gyfnodau neu amodau ffinrewlifol, ond ceir peth tystiolaeth eu bod yn ffurfio ar hyn o bryd. Mae'r Moelwyn Mawr felly'n safle o arwyddocad geomorffolegol sylweddol.

NID yw'r ddogfen hon yn fersiwn gyfreithiol derfynol ac mae wedi cael ei fformatio, ei diweddarau a'i golygu'n rhannol i'w defnyddio ar Wefan y Cyngor Cefn Gwlad. Ni ddylid defnyddio'r ddogfen hon yn unrhyw achos cyfreithiol, ymchwiliad cyhoeddus nac unrhyw apêl neu wrandawriad arall. Os byddwch angen copi cyfreithiol llawn o'r ddogfen, cysylltwch â'r Cyngor Cefn Gwlad yn ysgrifenedig os gwelwch yn dda.